Rhif cwmni / company number: 14227941

**Cyfarfod Bwrdd | Board meeting**
**22/10/25 – Tramshed Tech, Abertawe | Swansea**
**14:50-17:30**

**Cofnodion a chamau gweithredu | Minutes and actions**

**Yn bresennol | In attendance:**

| | |
|---|---|
| **Adnodd:** | Gethin Davies (GD), Cadeirydd \| Chair; Mair Gwynant (MG), Cadeirydd ARAC Chair; Natalie Jones (NJ); Huw Jones (HJ); Sioned Roberts (SR); Lesley Bush (LB); Nicola Wood (NW)<br>Emyr George, Prif Weithredwr \| Chief Executive (EG); Kirsty Davies (KD), Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol \| Director of Corporate Services; Lleucu Siencyn (LlS), Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni \| Director of Strategy and Delivery; Branwen Edwards (BE); Ali Hanbury, Pennaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu Strategol \| Head of Strategic Engagement and Communications (AH) |
| **Partneriaid \| Partners:** | Pat McCarthy (PMcC), Tîm Partneriaeth, Llywodraeth Cymru (LlC) \| Partnership Team, Welsh Government (WG) |

| **Eitem ar yr agenda** ***Agenda item*** | **Crynodeb o'r drafodaeth a'r pwyntiau gweithredu** | **Summary of discussion and action points** |
|---|---|---|
| 1.Croeso ac ymddiheuriadau<br>Welcome and apologies | Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br><br>Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau wedi dod i law. | The Chair welcomed all attendees to the meeting.<br><br>No apologies had been received. |
| 2. Datgan buddiannau<br>Declaration of interest | Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau wedi'i ddatgan cyn y cyfarfod.<br><br>Dywedodd dau aelod eu bod yn aelodau annibynnol o Bwyllgorau Archwilio a Risg cyflenwyr sydd wedi'u rhestru o dan eitem saith (Diweddariad y Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni), sef y Coleg Cymraeg | No conflict of interests had been declared in advance of the meeting.<br><br>Two members<br>noted that they are independent members of the Audit and Risk Committees of suppliers, listed under item seven (Director of Strategy and Delivery Update), |

| | | |
|---|---|---|
| | Cenedlaethol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.<br><br>Datganodd KD, LIS a BE wrthdaro o dan eitem 11 (adolygiad tâl 2025-26) a chytunodd y tri i adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno. | namely Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Future Generations Commissioner, the National Library of Wales.<br><br>KD, LIS and BE declared a conflict in relation to item 11 (2025-26 salary review) and agreed to leave the meeting during the 2025/26 pay review discussion. |
| 3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf<br>Minutes of previous meeting | Cytunodd y Bwrdd fod y cofnodion yn gofnod cywir a gwir o'r trafodaethau. | The Board agreed that the minutes were a true and accurate record of discussions. |
| 4. Diweddariad gan y Cadeirydd<br>Update from the Chair | Dywedodd GD ei fod yn llongyfarch tîm Adnodd ar lwyddiant y presenoldeb mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau ledled Cymru, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol – gyda chwmni aelodau'r Bwrdd ar rai dyddiau; y Sioe Addysg Genedlaethol yn Llandudno a Chaerdydd; a Chynadleddau Cydag – cynradd ac uwchradd.<br><br>Dywedodd GD fod y cyfarfod a drefnwyd wyneb yn wyneb ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi'i ohirio tan 18 Tachwedd. | GD congratulated the Adnodd team on the successful presence at events across Wales, including the National Eisteddfod (accompanied by Board members on some days), the National Education Show in Llandudno and Cardiff, and CYDAG conferences – primary and secondary.<br><br>GD noted that the scheduled in-person meeting with the Cabinet Secretary for Education had been postponed until 18 November.<br><br>GD drew the members' attention to the *Rhyngom* resources on display in the meeting room and noted |

| | | |
|---|---|---|
| | Tynnodd GD sylw'r aelodau at adnoddau *Rhyngom* a oedd i'w gweld yn yr ystafell gyfarfod, a dywedodd fod adnoddau TGAU Ton 2 bellach ar gael ar-lein.<br><br>Nodwyd bod presenoldeb Adnodd ar y cyfryngau cymdeithasol yn tyfu'n gyflym, gyda nifer o ddiwrnodau cenedlaethol a digwyddiadau'n cael eu dathlu, ac adnoddau newydd yn cael eu hyrwyddo.<br><br>Soniodd GD am y rhaglen barhaus o gyfleoedd dysgu proffesiynol a hyfforddiant sydd ar gael i holl aelodau'r Bwrdd. | that GCSE Wave 2 resources were now available online.<br><br>It was noted that Adnodd's social media presence is fast-growing, with many national days and events celebrated and new resources promoted.<br><br>GD noted the ongoing programme of professional learning and training available to all Board members. |
| 5. Diweddariad gan Gadeirydd ARAC a'r Grŵp Cynghori ar Adnoddau<br><br>Update by Chair of ARAC and the Resources Advisory Group | Yn ogystal ag adroddiad yr archwiliad allanol a chyfrifon terfynol 2024-25, roedd y Pwyllgor wedi craffu ar y canlynol yn ystod ei gyfarfod ar 6 Hydref:<br><br><u>Y Gofrestr Risgiau</u><br>Mae'r gofrestr wedi'i datblygu ymhellach i gynnwys y tabiau canlynol:<br>• Y cofnod o broblemau<br>• Y gofrestr dyfarniadau uniongyrchol<br>• Y gofrestr risgiau twyll<br>• Y gofrestr risgiau seiber | In addition to the external audit report and the final accounts 2024-25, the Committee had scrutinised the following during its meeting on 6 October:<br><br><u>Risk register</u><br>Further developed to include the following tabs:<br>• Issues Log<br>• Direct award register<br>• Fraud risk register<br>• Cyber risk register<br><br>It was agreed to include a justification column within the direct award register. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd y dylid cynnwys colofn gyfiawnhau yn y gofrestr dyfarniadau uniongyrchol.<br><br>Roedd risg ychwanegol wedi'i hychwanegu at y brif gofrestr, sef risg ynghylch dyfarnu contractau'n uniongyrchol.<br><br>Cafwyd lefel uchel o sicrwydd yn ystod yr archwiliad manwl o'r gofrestr risgiau seiber.<br><br><u>Archwilio mewnol</u><br>Cytunodd ARAC ar y Cylch Gorchwyl mewn perthynas â Rheoli Contractau yn Chwarter 3, a fydd yn canolbwyntio ar gontractau comisiynu ac yn datblygu ar ganfyddiadau'r archwiliad allanol. | An additional risk relating to directly awarding contracts had been added to the main register<br><br>A high level of assurance was provided during the deep-dive in the cyber risk register.<br><br><u>Internal audit</u><br>ARAC agreed the Q3 Contract Management Terms of Reference, which will focus on commissioning contracts and build on findings from the external audit. |
| 6. Diweddariad y Prif Weithredwr<br><br>Chief Executive Update | <u>Eithrio rhag TAW</u><br>Oherwydd y cynnydd sylweddol a wnaed a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd EG fod gan Adnodd sylfaen gref i fwrw ymlaen â'r cais i gael ei eithrio rhag talu TAW ar elfennau penodol wrth wneud gwaith comisiynu.<br><br>Dros yr wythnos nesaf, bydd trafodaethau'n cael eu cynnal a'r broses yn ailddechrau i gael ein rhestru fel corff dynodedig o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd y Bwrdd yn cael diweddariad ym mis Ionawr. | <u>VAT exemption</u><br>EG noted that due to significant progress and delivery during the past year, Adnodd has a solid basis to proceed with the application to be exempted from VAT on certain aspects of commissioning work.<br><br>Over the next few weeks, discussions and the process of applying to be listed as a designated body under the relevant legislation will resume. An update will be presented to the Board in January. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cam gweithredu: Diweddaru'r Bwrdd ym mis Ionawr ynghylch y cais i eithrio Adnodd yn rhannol rhag talu TAW.**<br><br>Model hunanasesu<br>Adolygodd ARAC fersiwn ddrafft o'r model hunanasesu a chytunodd i adolygu fersiwn derfynol i'w chymeradwyo ym mis Ionawr 2026.<br><br>Mae ARAC yn rhagweld y bydd angen cymryd nifer o gamau gweithredu i sicrhau bod Adnodd yn cydymffurfio'n llawn â'i holl gyfrifoldebau fel corff hyd braich.<br><br>Cytunodd ARAC y dylid datblygu cynllun gweithredu a'i roi ar waith.<br><br>Materion gweithredol<br>Mae'r Tîm Gweithredol wrthi'n datblygu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o gapasiti a'r gyllideb, ynghyd â chytuno ar flaenoriaethau ac amcanion effeithiol gyda Llywodraeth Cymru dros y misoedd nesaf.<br><br>Ein nod yw gwneud defnydd llawn o grantiau cystadleuol a dulliau caffael i sicrhau gwerth am arian. | **Action: Update the Board in January in relation to applying for Adnodd to be partially exempt from VAT.**<br><br>Self-assessment model (SAM)<br>ARAC reviewed a draft version of the SAM and agreed to review a final version for approval in January 2026.<br><br>ARAC anticipates that several actions will be required to ensure full compliance with all Adnodd's responsibilities as an arm-length body.<br><br>ARAC agreed for an action plan to be developed and implemented.<br><br>Operational activity<br>The Executive Team is currently developing plans for next year to ensure the best use of capacity and budget, and to agree effective objectives and priorities with WG over the coming months.<br><br>One objective is to make full use of competitive grants and procurement methods to ensure value for money.<br><br>The Team is also assessing ways to ensure full and effective spending of the budget this year, including looking at running further rounds of competitive |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r Tîm hefyd yn asesu ffyrdd o sicrhau ei fod yn gwario'r gyllideb yn llawn ac yn effeithiol eleni, gan gynnwys edrych ar rowndiau comisiynu cystadleuol pellach er mwyn rhoi opsiwn i ddyfarnu a dechrau prosiectau yn Chwarter 4.<br><br><u>Ymgysylltu, cydweithio a chodi ymwybyddiaeth</u><br>Dywedodd EG fod ymateb Adnodd i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru am ddiwygio cymwysterau UG a Safon Uwch wedi'i ddarparu, er gwybodaeth.<br><br><u>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru</u><br>Cynhaliodd EG a LIS sesiwn am Adnodd a'n ffyrdd o weithio gyda Llywodraeth Cymru yn ystod diwrnod cwrdd i ffwrdd yr is-adran – sef yr is-adran yn y Gyfarwyddiaeth Addysg y mae ein Tîm Partneriaeth yn rhan ohoni.<br><br>Bu Adnodd mewn gweithdy gyda'r is-adran Tegwch mewn Addysg, er mwyn deall yn well y meysydd polisi eang y maen nhw'n eu harwain. Canfuwyd sawl maes penodol ar gyfer cydweithio yn y tymor byr a'r tymor hwy sy'n cyd-fynd yn agos â meysydd ffocws Adnodd.<br><br>Bu Adnodd yn rhan o ddiwrnod ymgysylltu llawn â'r cyflenwyr a fydd yn cael arian grant gan Lywodraeth | commissioning to give an option of awarding and starting projects in Q4.<br><br><u>Engagement, collaboration and raising awareness</u><br>EG noted that Adnodd's response to Qualifications Wales' consultation on the reform of AS and A Levels in Welsh had been provided for information.<br><br><u>Working with WG</u><br>EG and LIS ran a session on Adnodd and our ways of working with WG at the Curriculum and Assessment division's away day – the division within the Education Directorate in which our Partnership Team sits.<br><br>Adnodd attended a workshop with the Equity in Education division, to further understand the broad policy areas on which they are leading. Several specific areas were identified for short-term and longer-term collaboration that align closely with Adnodd's strategic focus areas.<br><br>Adnodd attended a full day of engagement with the suppliers who will receive grant funding from WG over the next three years to support the Curriculum for Wales (CfW). |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymru dros y tair blynedd nesaf i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.<br><br>Wrth ymateb i ymholiad gan aelod am y broses grantiau, esboniodd EG y bydd polisi Grantiau'n cael ei lunio i gyd-fynd â'r polisi Caffael, a hynny fel rhan o'r gwaith o gynllunio at y flwyddyn nesaf. | In response to a member's query regarding the grants process, EG explained that as part of the planning work for next year, a Grants policy will be drawn up to sit alongside the Procurement policy. |
| 7. Diweddariad y Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyflawni<br><br>Director of Strategy and Delivery Update | Esboniodd LIS fod adroddiad cynnydd wedi'i gyflwyno fel gwybodaeth gefndir ar gyfer datganiad llafar Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a roddwyd yn y Senedd ar 23 Medi 2025.<br><br>Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaeth Adnodd ers ei sefydlu, gyda phwyslais penodol ar yr adnoddau a'r cynnyrch sydd ar gael i ymarferwyr a dysgwyr eu defnyddio. Dyma'r uchafbwyntiau:<br>• Comisiynu a rheoli 40+ o brosiectau<br>• 419 o adnoddau dwyieithog ar gael yn rhad ac am ddim i bob ysgol yng Nghymru<br>• 307 o adnoddau i gefnogi'r cymwysterau TGAU newydd<br>• Dosbarthu 7,125 o lyfrau am ddim i ysgolion<br>• 49,706 o lyfrau Cymraeg a Saesneg wedi'u dosbarthu fel rhan o brosiect *Rhyngom*. | LIS explained that a progress report was provided as background information for the CSE's verbal statement presented in Senedd on 23 September 2025.<br><br>The report summarised the progress made by Adnodd since its inception, with a particular focus on resources and products that are available for use by practitioners and learners. Highlights included:<br>• Commissioning and managing 40+ projects<br>• 419 bilingual resources available free of charge to all schools in Wales<br>• 307 resources to support the new GCSEs<br>• Free distribution of 7,125 books to schools<br>• 49,706 Welsh and English books distributed as part of the *Rhyngom* project.<br><br>LIS reported that digital resources supporting wave 1 of new GCSE qualifications are now available on Hwb. |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd LIS fod adnoddau digidol i gefnogi ton 1 y cymwysterau TGAU newydd bellach ar gael ar Hwb.<br><br><u>Grŵp Gweithrediadau Adnodd</u><br>Mae ffurflenni cais a llifoedd gwaith newydd ar gyfer comisiynu a chyhoeddi adnoddau ar Hwb wedi'u datblygu, ac mae'r adroddiadau misol yn rhoi trosolwg cywir a syml i aelodau'r grŵp o'r adnoddau sydd i'w cyhoeddi'n fuan.<br><br>Dywedodd LIS fod y dull adrodd yn cael ei ddatblygu ymhellach i roi canrannau a data penodol mewn fformat gweledol. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i roi diweddariad i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ystod y cyfarfod wyneb yn wyneb fis Tachwedd, er mwyn rhoi darlun llawn o'r hyn y mae Adnodd wedi'i gyflawni.<br><br><u>Y gronfa arloesi</u><br>Fis Medi 2025, cyhoeddwyd manylion am y deg prosiect llwyddiannus, a'r rheini'n cynrychioli croestoriad amrywiol a chyffrous o dirwedd addysgol a diwylliannol Cymru. Cafodd pob prosiect gyllid o £5,000.<br><br>Ar ddiwedd cam 1, bydd pob prosiect yn cyflwyno adroddiad yn ystyried yr hyn a wnaed. Bydd y prosiectau a ddewisir yn cael gwahoddiad wedyn i wneud cais am ragor o gyllid i ddatblygu adnoddau dwyieithog llawn i'w | <br><u>Adnodd Operations Group</u><br>New workflows and application forms for commissioning and publishing resources on Hwb have been developed, and the monthly reporting provides members of the group with an accurate and simple overview of forthcoming resources.<br><br>LIS noted that the reporting method is being further developed to provide specific data and percentages in a visual format. This will be used to update the CSE during the in-person meeting in November to provide a full picture of Adnodd's delivery.<br><br><u>Innovation fund</u><br>Ten successful projects, which represent a diverse and exciting cross-section of the educational and cultural landscape of Wales, were announced in September 2025. Each project received funding of £5,000.<br><br>At the end of phase 1, each project will submit a reflective report. Selected projects will then be invited to apply for further funding to develop full-scale bilingual resources for use in schools, which will be aligned with WG priorities.<br><br><u>Autumn commissioning opportunities</u> |

| | | |
|---|---|---|
| | defnyddio mewn ysgolion, a'r rheini'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.<br><br><u>Cyfleoedd comisiynu yn yr hydref</u><br>Esboniodd LIS y bydd tri dyfarniad posibl (i'w rhoi erbyn diwedd mis Hydref) yn cael eu gwneud fel rhan o'r rownd gomisiynu hon, a hynny ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn y meysydd:<br>• Iechyd a lles<br>• Crefydd, gwerthoedd a moeseg<br>• Mathemateg a rhifedd<br><br><u>Cyfeillion Adnodd</u><br>Mae galwad wedi'i gwneud i greu cymuned o bobl sydd â phrofiadau bywyd ac arbenigedd sy'n berthnasol i weledigaeth y Cwricwlwm i Gymru. Bydd y bobl hyn yn gweithio gydag Adnodd er mwyn:<br>• cefnogi'r prosesau comisiynu<br>• gwerthuso ceisiadau<br>• rhoi cyngor a chynorthwyo gydag ansawdd a chynnwys adnoddau<br><br>Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn dod o yn rhan o fframwaith penodol a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd gwaith yn cael ei gynnig ar sail llawrydd, a bydd ceisiadau'n cael eu gwahodd ar sail ad hoc, yn dibynnu ar natur prosiectau'r dyfodol. | LIS explained that there will be three potential awards (awarded by the end of October) as part of this commissioning round for projects that support the teaching and learning of:<br>• Health and well-being<br>• Religion, values and ethics<br>• Mathematics and numeracy<br><br><u>Cyfeillion Adnodd Friends</u><br>A call has gone out to create a community of people with lived experiences and expertise relevant to the vision of the CfW, who will work with Adnodd to:<br>• support commissioning processes<br>• evaluate applications<br>• provide advice and support on the quality and content of resources<br><br>The successful applicants will be placed on a specific framework administered by Caerphilly County Borough Council (CBCC). Work will be offered on a freelance basis, and applications will be invited on an ad hoc basis depending on future projects. |

| | | |
|---|---|---|
| 8. Diweddariad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Director of Corporate Services update | Adnoddau dynol<br>Dywedodd KD fod pump aelod newydd o staff wedi dechrau yn eu swyddi gydag Adnodd.<br><br>Ar 30 Medi 2025, rhoddodd Rheolwr Comisiynu ac Ansawdd rybudd y bydd yn gadael ei swydd ar 30 Rhagfyr 2025.<br><br>Ar ôl ystyried polisi recriwtio Adnodd a chyngor am adnoddau dynol gan Darwin Gray, ynghyd â chael cytundeb dilynol ARAC, bydd y swydd yn cael ei hysbysebu'n fewnol i gychwyn.<br><br>Ar ôl trafodaeth yng nghyfarfod diweddar ARAC, bydd Adnodd yn diweddaru'r polisi recriwtio i ddynodi, ar ôl proses recriwtio lwyddiannus, y bydd modd cadw rhestr wrth gefn o ymgeiswyr am chwe mis. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd gan Adnodd yr hawl i gynnig y swydd i unigolyn sydd ar y rhestr wrth gefn heb orfod dechrau proses recriwtio agored arall.<br><br>Fforwm y Staff<br>Gwirfoddolodd tri aelod o staff – dau gynrychiolydd o'r Tîm Corfforaethol ac un o'r Tîm Comisiynu. Bydd aelod arall o'r Tîm Comisiynu yn cael ei recriwtio ar ôl i aelodau newydd o'r staff gwblhau'r broses gynefino. | Human resources<br>KD reported that five new members of staff have started in their roles with Adnodd.<br><br>On 30 September 2025, a Commissioning and Quality Manager handed in their notice and will be leaving their post on 30 December 2025.<br><br>Following consideration of Adnodd's recruitment policy and HR advice from Darwin Gray, and subsequent agreement from ARAC, the role will be advertised internally in the first instance.<br><br>Following discussion at the recent ARAC meeting, Adnodd will update the recruitment policy, to specify that, following a successful recruitment activity, a reserve list of appointable candidates can be retained for six months. During this period, Adnodd reserves the right to offer the role to an individual on the list without engaging in another open recruitment process.<br><br>Staff Forum<br>Three members of staff volunteered - two representatives from the Corporate Team and one from the Commissioning Team. An additional member of |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynhaliwyd cyfarfod sefydlu'r fforwm ym mis Awst er mwyn cytuno'n ffurfiol ar swyddi, y cylch gorchwyl, a'r cynllun gwaith.<br><br>Penodwyd Seren Trigg o Darwin Gray yn Gadeirydd dros dro am y chwe mis cyntaf. Bydd y fforwm yn ceisio penodi cynrychiolydd o Adnodd yn Gadeirydd ddechrau 2026.<br><br>Mae papurau'r fforwm yn cael eu rhannu â'r tîm ehangach i'w hystyried, er mwyn rhoi adborth i'w drafod yn ystod y cyfarfodydd.<br><br>Yn ystod y cyfarfod ffurfiol cyntaf ar 25 Medi, trafododd y fforwm ddyfarniad cyflog y staff yn 2025/26, y buddion sydd ar gael i staff, a'r arolwg ymgysylltu.<br><br><u>Polisïau</u><br>Adolygodd a chymeradwyodd ARAC y Cynllun Parhad Busnes ar 6 Hydref 2025.<br><br>Mae'r Polisi Gweithio Ystwyth wedi'i ddiweddaru i gynnwys adran am geisiadau gan weithwyr i weithio dramor dros dro. Cafodd y diweddariad ei ddrafftio ar ôl cael cyngor gan Darwin Gray ac arweinwyr adnoddau dynol mewn cyrff eraill a noddir. | the Commissioning Team will be recruited once new staff members have completed the onboarding process.<br><br>The forum's inception meeting took place in August to formally agree roles, the terms of reference and the work plan.<br><br>Seren Trigg, Darwin Gray, was appointed interim Chair for the first six months. The forum will seek to appoint an Adnodd representative as Chair early in 2026.<br><br>Forum papers are shared with the wider team for consideration, to provide feedback for discussion during the meetings.<br><br>During the first formal meeting on 25 September, the forum discussed the staff pay award for 2025/26, staff benefits and an engagement survey.<br><br><u>Policies</u><br>ARAC reviewed and approved the Business Continuity Plan on 6 October 2025.<br><br>The Agile Working Policy has been updated to include a section relating to employees requesting to work from abroad on a temporary basis. The update was |

| | | |
|---|---|---|
| | ***Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Gweithio Ystwyth wedi'i ddiweddaru, yn amodol ar dynhau'r adran am weithio dramor.***<br><br><u>Cyllid</u><br>Adroddiad Cyllid y Flwyddyn Hyd Yma:<br>• Yn y cyfnod hyd at 30 Medi 2025, mae cyfanswm y gwariant £120,864 yn fwy na'r cyllid grant sydd wedi'i dynnu i lawr.<br>• Ceir gorwariant o £194,076 yn y gyllideb gomisiynu ac mae hynny gan fod rhagolygon gwreiddiol y gyllideb yn dangos gwerth llawn pob contract yn Chwarter 4, a hynny yn ystod y broses o gytuno ar gerrig milltir gyda chyflenwyr. Cytunwyd bellach ar y cerrig milltir ar gyfer nifer o brosiectau, ac mae rhai ohonyn nhw wedi'u cwblhau yn Chwarter 2, a hynny'n arwain at wariant nad oedd yn rhan o'r rhagolygon yn y cyfnod dan sylw.<br>• Ceir tanwariant o £73,211 yn y gyllideb weithredol:<br>    o Mae tua £35,000 yn sgil anfonebau am wasanaethau sydd heb eu darparu eto<br>    o Mae £20,000 yn ymwneud â'r dyfarniad cyflog sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer y staff yn 25/26. Nid yw'r dyfarniad cyflog hwn wedi'i gadarnhau na'i dalu eto | drafted following advice from Darwin Gray and HR leads within other sponsored bodies.<br><br>***Decision: The Board approved the updated Agile working policy, subject to further work to tighten the working from aboard section.***<br><br><u>Finance</u><br>Year to Date Finance Report:<br>• Total expenditure for the period to 30 September 2025 exceeds the grant funding drawn down by £120,864.<br>• An overspend of £194,076 within the commissioning budget is due to the original budget forecast showing the full value of each contract in Q4 whilst milestones were being agreed with suppliers. Milestones have now been agreed for several projects, and some have completed within Q2 leading to un-forecasted spend within the period.<br>• An underspend of £73,212 within the operational budget:<br>    o Approximately £35,000 is due to invoices for services not yet received<br>    o £20,000 relates to the budgeted pay award to staff for 25/26 which is yet to be agreed and paid |

| | | |
|---|---|---|
| | ○ Mae'r tanwariant sy'n weddill, sef tua £18,000, wedi'i ailddyrannu i Chwarteri 3 a 4.<br><br><u>Rhagolwg - Chwarter 3 a Chwarter 4:</u><br>Mae llythyr amrywiad grant mewn perthynas â'r adnoddau TGAU Ton 2 wedi dod i law, yn cadarnhau tua £545,000 o gyllid ychwanegol dros ddwy flynedd ariannol.<br><br>Mae'r trafodaethau ynghylch cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn mynd rhagddyn â'r tîm yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am hawliau dynol.<br><br>Dywedodd KD fod y llinell yn y gyllideb ar gyfer sicrwydd ansawdd wedi'i chwtogi i £30,000 er mwyn cydnabod na fydd y fframwaith cyflenwyr yn barod tan ddiwedd mis Rhagfyr, gan adael ffenestr fer i ymwneud â'r ymgeiswyr llwyddiannus yn y flwyddyn ariannol bresennol.<br><br>Mae'r gyllideb ymchwil hefyd wedi'i chwtogi ar ôl drafftio briff ar gyfer y prosiect, sy'n rhannu'r gwaith yn ddau gam, a'r ail o'r rheini i'w gwblhau ym mlwyddyn ariannol 26/27.<br><br>Mae'r arbedion yn y llinellau yn y gyllideb ar gyfer sicrhau ansawdd ac ymchwil wedi'u hailddyrannu i'r prosiectau | ○ Remaining underspend of approximately of £18,000 has been reallocated to Q3 and Q4<br><br><u>Forecast – Q3 and Q4</u>:<br>A grant variation letter in respect of the Wave 2 GCSE resources had been received, confirming approximately £545,000 additional funding across two financial years.<br><br>Discussions regarding additional in-year funding are ongoing with the WG team responsible for human rights.<br><br>KD reported that the quality assurance (QA) budget line had been reduced to £30,000 to recognise that the supplier framework will not be in place until late December, leaving a short window to engage the successful bidders within the current financial year.<br><br>The research budget had also been reduced following the drafting of a brief for the project, which splits the work into two stages, the second of which will complete in FY26/27. |

| | | |
|---|---|---|
| | Anghenion Dysgu Ychwanegol gyda Chyngor Llyfrau Cymru a'r RNIB.<br><br>Dywedodd KD fod y gyllideb a gyflwynwyd i ARAC ar 6 Hydref wedi dyrannu £150k ar gyfer prosiect posibl i gyhoeddi adnoddau gwrth-hiliaeth. Ers hynny, mae ymholiadau wedi'u gwneud ynghylch sut mae'r adnoddau'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Ni fydd y cyllid yn cael ei roi i'r cyflenwr yn ystod blwyddyn ariannol 25/26. Mae senarios posibl wedi'u canfod i edrych ymhellach ar ailddyrannu'r cyllid.<br><br>Mae tanwariant o tua £18,000 yn y costau gweithredol yn Chwarteri 1 a 2 wedi'i ailddyrannu er mwyn cynyddu'r cyllidebau canlynol:<br>• cyfathrebu a marchnata<br>• caffael<br><br>Esboniodd MG fod llinell wedi'i hychwanegu at y gyllideb i wneud iawn am y cronfeydd wrth gefn negyddol gwerth £16,000.<br><br>Cadarnhaodd PMcC eu bod yn aros am gymeradwyaeth yn dilyn y cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch cynyddu cyfraniadau yswiriant gwladol a chyflogau yn ystod y flwyddyn. | The savings in the QA and research lines have been reallocated to the ALN projects from Books Council for Wales and RNIB.<br><br>KD noted that the budget presented to ARAC on 6 October allocated £150k to a potential project to publish existing anti-racism resources. Queries have since been raised regarding the alignment of the resources to CfW. The funding will not be made available to the supplier during FY25/26. Potential scenarios have been identified for further exploration to reallocate the funding.<br><br>An underspend of approximately £18,000 within the operational costs for Q1 and Q2 has been reallocated to increase the following budgets:<br>• communication and marketing<br>• procurement<br><br>MG explained that a line had been added to the budget to cancel out the negative reserves of £16,000.<br><br>PMcC confirmed that the advice to the CSE regarding in-year uplift for NI contributions and salary is awaiting approval. |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi cyhoeddi'r gyllideb amlinellol ar gyfer 2026/27. Bydd y gyllideb ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar 3 Tachwedd 2025. Mae disgwyl cyflwyno'r gyllideb derfynol ar 20 Ionawr, gyda phleidlais yn y Senedd ar 27 Ionawr 2026.<br><br>Dywedodd PMcC mai'r disgwyl yw y bydd cyngor ynghylch llythyr ariannu Adnodd yn 2026/27 yn cael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr, gyda golwg ar gael cytundeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg cyn y bleidlais yn y Senedd ddiwedd mis Ionawr.<br><br>Oherwydd bod etholiad y Senedd ym mis Mai, mae disgwyl i Adnodd gael llythyr ariannu blwyddyn o hyd, ac estyniad blwyddyn o hyd i'r llythyr cylch gwaith presennol.<br><br>Cymorth grant:<br>Disgwylir y bydd y ffigurau ar gyfer Cymorth grant yn debyg iawn i ffigurau 2025/26, gyda mymryn o gynnydd ar gyfer codiadau cyflog a chyfraniadau yswiriant gwladol yn 2026/27.<br><br><u>Archwilio mewnol</u><br>Bydd yr ail archwiliad mewnol yn canolbwyntio'n benodol ar reoli'r contractau comisiynu, gan mai yn y maes gwaith | The Cabinet Secretary for Finance had published the outline budget for 2026/27. The draft budget will be published on 3 November 2025, the final budget is due to be presented on 20 January, with a Senedd vote on 27 January 2026.<br><br>PMcC noted that it is expected that advice regarding Adnodd's funding letter 2026/27 will be presented in December with a view of receiving CSE agreement before the vote in Senedd at the end of January.<br><br>Due to the Senedd election in May, Adnodd is expected to receive a one-year funding letter and a one-year extension to the current remit letter.<br><br>Grant in aid:<br>It is expected that the figures for Grant in aid will be closely aligned to the figures received for 2025/26 with a slight uplift for salary increase and NI contributions for 2026/27.<br><br><u>Internal audit</u><br>The second internal audit will focus specifically on the management of the commissioning contracts as this area of work carries the highest level of risk and requires the greatest level of assurance. |

| | | |
|---|---|---|
| | hwn y mae'r risg uchaf, ac felly dyma lle mae angen y lefel sicrwydd uchaf.<br><br>Bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd a bydd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno i ARAC ym mis Ionawr. | The audit will take place during October and November and the findings will be reported to ARAC in January. |
| 9. Diweddariad cyfathrebu ac ymgysylltu<br><br>Communications and engagement update | Cafodd AH ei chroesawu gan GD i'w chyfarfod Bwrdd cyntaf fel Pennaeth Ymgysylltu Strategol a Chyfathrebu.<br><br>Esboniodd AH fod Cynorthwyydd Cyfathrebu newydd Adnodd wedi dechrau yn ei swydd ar 6 Hydref.<br><br><u>Everglow</u><br>Mae KD ac AH wedi bod yn gweithio gydag Everglow (partner digidol a chyfathrebu Adnodd – Blue Stag oedd yr hen enw) i gynllunio cyfnod trosglwyddo pum mis wrth i'r cwmni fynd ati'n raddol i ysgwyddo'r cyfrifoldebau'n fewnol am waith cyfathrebu.<br><br><u>Adroddiad cynnydd blynyddol</u><br>Mae'r adroddiad wedi'i ddrafftio ac mae'n cynnwys uchafbwyntiau gwaith y tîm comisiynu.<br><br><u>Adolygu'r gwaith ymgysylltu hyd yma</u> | GD welcomed AH to her first Board meeting as Head of Strategic Engagement and Communications.<br><br>AH explained that Adnodd's new Communications Assistant had started in role on 6 October.<br><br><u>Everglow</u><br>KD and AH have been working with Everglow (Adnodd's digital and communications partner, previously called Blue Stag) to plan a five-month handover period as the communications functions are gradually brought in-house.<br><br><u>Annual progress report</u><br>The report has been drafted and includes the highlights of the commission team's work.<br><br><u>Review of engagement work-to-date</u> |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd AH y bydd yr adolygiad yn edrych ar y bylchau, ar ba waith sydd wedi'i gwblhau hyd yma, ac ar sut y bydd y cynllun cyfathrebu strategol yn cael ei lunio.<br><br>Dywedodd AH y bydd y staff yn cymryd rhan mewn gweithdy gydag ymarferwyr creadigol ar 23 Hydref.<br><br><u>Gŵyl Adnodd</u><br>Soniodd AH am y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ymwneud â chyflenwyr presennol a darpar gyflenwyr yn y farchnad.<br><br>Bydd Gŵyl Adnodd yn gyfle i gael trafodaeth agored am yr heriau posibl y mae cyflenwyr yn eu hwynebu, fel creu adnoddau sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru a chreu cynnwys dwyieithog.<br><br><u>Polisi'r Gymraeg</u><br>Mae KD ac AH ar hyn o bryd yn gweithio gyda Catrin Keller o'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i ddrafftio'r polisi gan ddefnyddio ysgrifennu triawd – dull y mae Adnodd yn annog ei gyflenwyr i'w ddefnyddio.<br><br>Ar ôl gweithdy undydd cychwynnol, mae'r polisi'n cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod sesiynau ar-lein. | AH noted that the review will look at the gaps, what work has been completed to date, and how the strategic communications plan will be shaped.<br><br>AH noted that the staff team will participate in a creative practitioners' workshop on 23 October.<br><br><u>Adnodd Fest</u><br>AH noted the ongoing work with CBCC in relation to market engagement with existing and future suppliers.<br><br>Adnodd Fest will provide an opportunity to openly discuss potential challenges for suppliers, such as creating resources that align with CfW, and creating bilingual content.<br><br><u>Welsh language policy</u><br>KD and AH are currently working with Catrin Keller, Centre for Digital Public Services to draft the policy using trio writing - an approach that Adnodd is encouraging amongst its suppliers.<br><br>Following an initial one-day workshop, the policy is being further developed during online sessions. |

| | | |
|---|---|---|
| 10. Olyniaeth y Bwrdd<br><br>Board succession | Cymeradwyodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y cynnig a gyflwynodd Adnodd ynghylch olyniaeth ar y Bwrdd.<br><br>Bydd y Tîm Partneriaeth bellach yn rhoi cyngor ffurfiol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Tachwedd er mwyn dechrau'r broses o ymestyn contractau presennol aelodau'r Bwrdd, gan ychwanegu naill ai flwyddyn neu dair blynedd atyn nhw, yn unol â'r cynnig.<br><br>**Cam gweithredu: Aelodau'r Bwrdd y mae'u contractau'n cael eu hymestyn am dair blynedd i ystyried gwirfoddoli i fod yn aelodau o ARAC.**<br><br>**Cam gweithredu: Cylchredeg yr archwiliad o sgiliau'r Bwrdd.**<br><br>**Cam gweithredu: Ystyried sgiliau penodol ar gyfer ARAC yn ystod y broses o recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd.** | The CSE approved the Board succession proposal submitted by Adnodd.<br><br>The partnership team is now submitting formal advice to the CSE in November to begin the process of extending current board members' contracts by either one or three years, in line with the proposal.<br><br>**Action: Board members' whose contracts are being extended by three years to consider volunteering for ARAC membership.**<br><br>**Action: Circulate the Board skills audit.**<br><br>**Action: Consider specific ARAC skills during the recruitment process for new Board members.** |
| 11. Adolygiad tâl 2025/26<br>Pay review | ***Eitem gaeedig. Gadawodd KD, LlS a BE y cyfarfod yn ystod yr eitem hon.*** | ***Closed item. KD, LlS and BE left the meeting during this item.*** |
| 12. Cynllun gweithredol<br><br>Operational plan | Esboniodd EG fod y tîm yn diweddau'r cynllun bob mis er mwyn dangos y cynnydd o dan yr amcanion. Mae pob amcan yn cael label coch, ambr neu wyrdd i amlygu | EG explained that the plan is updated by the team monthly to outline progress against objectives. Each objective is RAG (red, amber or green) rated to |

| | | |
|---|---|---|
| | problemau posibl ac elfennau tyngedfennol wrth gyflawni.<br><br>Oherwydd pa mor gynhwysfawr yw'r daenlen, cytunwyd y bydd y papur cefndir ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol yn cyfeirio at y materion pwysicaf yn unig. | highlight potential issues and pinch points for delivery.<br><br>Due to the comprehensiveness of the spreadsheet, it was agreed that for future meetings, the cover paper will only reference the matters of highest importance. |
| 13. Y Cwricwlwm i Gymru: y risgiau, yr heriau a'r cyfleoedd<br><br>Curriculum for Wales: the risks, opportunities and challenges | Dywedodd GD y byddai fideo a chyflwyniad yn cael eu cylchredeg i baratoi at y sesiwn sydd wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill 2026 – Y Cwricwlwm i Gymru: Y risgiau, y cyfleoedd a'r heriau. | GD noted that a video and presentation would be circulated in preparation for the session scheduled for April 2026's Board meeting - Curriculum for Wales: The risks, opportunities and challenges. |
| 14. Unrhyw fusnes arall<br><br>Any other business | Trafodwyd a chytunwyd ar ddyddiadau'r cyfarfodydd nesaf. | The dates of the next meetings were discussed and agreed. |

Arwyddwyd gan: ________________________________ (Cadeirydd)
Dyddiad:

| **Dyddiad cyfarfod *Meeting date*** | **Cyfeirnod Reference** | **Pwynt gweithredu *Action*** | **Erbyn *By*** | **Cyfrifol *Responsible*** | **Statws *Status*** |
|---|---|---|---|---|---|
| 03/04/25 | 1 | Gofyn am gopi o strwythur staffio Is-adran y Cwricwlwm ac Asesu ar ran y Bwrdd. \| Request a copy of the Curriculum and | 16/07/25 | Exec | Strwythur y Gyfadran Addysg |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Assessment Division's staffing structure on behalf of the Board. | | Y Tîm Gweithredol | gyfan wedi eu cynnwys ym mhapurau 260128. **Sylwer: Er defnydd mewnol Adnodd yn unig.**<br><br>Full structure of Education Directorate included in 260128 papers. **Please note: For internal Adnodd use only.** |
| 03/04/25 | 2 | Cysylltu â'r pleidiau gwleidyddol gydag awgrym o eiriad am gylch gwaith Adnodd i'w gynnwys yn eu maniffestos. \| Approach the political parties with suggested wording of Adnodd's remit to include in their manifestos. | 02/2026 | EG | Yn mynd rhagddo \| Ongoing |
| 03/04/25 | 3 | Ymwneud â grwpiau sydd â diddordebau arbennig ar y cyfryngau cymdeithasol, e.e. grwpiau'r Cwricwlwm i Gymru a phenaethiaid. \| To engage with special interest groups on social media e.g. Curriculum for Wales and headteachers groups. | 02/2026 | Y Pennaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu Strategol<br><br>New Head of Comms and Strategic Engagement | Yn mynd rhagddo - rhan o'r Strategaeth Cyfathrebu \|<br><br>Ongoing - forms part of the Communications Strategy. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 22/10/25 | 4 | Diweddaru'r Bwrdd ym mis Ionawr ynghylch eithrio rhag talu TAW. \| Update the Board in January in relation to the exemption from VAT. | 01/2026 | EG | |
| 22/10/25 | 5 | Aelodau'r Bwrdd y mae'u contractau'n cael eu hymestyn am dair blynedd i ystyried gwirfoddoli i fod yn aelodau o ARAC \| Board members' whose contracts are being extended by three years to consider volunteering for ARAC membership. | 01/2026 | Aelodau<br><br>Members | |
| 22/10/25 | 6 | Cylchredeg yr archwiliad o sgiliau'r Bwrdd \|Circulate a Board skills audit. | 01/2026 | BE | |
| 22/10/25 | 7 | Ystyried sgiliau penodol ar gyfer ARAC yn ystod y broses o recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd. \| Consider specific ARAC skills during the recruitment process for new Board members. | 09/2026 | Y Tîm Gweithredol/Y Tîm Partneriaeth Exec/Partnership Team | Yn mynd rhagddo \| Ongoing |